

**Cofnodion cyfarfod rhif 81  
Pwyllgor Cyngori Cymru  
a gynhaliwyd drwy 'Teams' ar 15 Mehefin 2021**

**Yn bresennol**

Hywel Wiliam	Y Cadeirydd
Peter Trott	Aelod
Robert Andrews	Aelod

**Hefyd yn bresennol**

David Jones	Aelod ar ran Cymru o Fwrdd Ofcom
Aled Eirug	Aelod ar ran Cymru o'r Bwrdd Cynnwys
Sian Phipps	Aelod ar ran Cymru ar y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau
Eleanor Marks	Cyfarwyddwr, Ofcom Cymru
Elinor Williams	Pennaeth Materion Rheoleiddiol, Ofcom Cymru
Meleri Evans	Rheolwr Materion Rheoleiddiol, Ofcom Cymru

Cydweithwyr eraill yn Ofcom

**Ymddiheuriadau**

Andrew Board	Aelod
Ruth McElroy	Aelod
Rem Noormohamed	Aelod

<b>Eitemau ar yr Agenda</b>	<b>Gweith redu</b>
<b>Cyflwyniad</b> 1. Croesawodd y Cadeirydd y rhai a oedd yn bresennol i gyfarfod rhif 81 Pwyllgor Cyngori Cymru. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Andrew Board, Ruth McElroy a Rem Noormohamed.	
<b>Datgan Buddiannau Aelodau – ar lafar</b> 2. Dim	
<b>Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Mawrth 2021 a materion yn codi – Cofnodion PCC rhif 80</b> 3. Roedd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 <sup>fed</sup> Mawrth 2021 wedi cael eu dosbarthu i'r Aelodau ymlaen llaw. Yn dilyn diwygiad ychwanegol, cafodd y cofnodion eu <b>CYMERADWYO</b> fel cofnod cywir o'r cyfarfod. <b>Materion yn codi/Camau gweithredu heb eu cyflawni -</b> <ul style="list-style-type: none"><li>• Amlygrwydd y Pwyllgor Cyngori ar wefan Ofcom</li><li>• Archwiliad Cyfryngau'r Sefydliad Materion Cymreig – dosbarthu dolenni at adroddiadau a grybwyllwyd yn y cyfarfod diwethaf</li><li>• Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru – eglurhad</li></ul>	<b>EW</b>

<p>nad Strategaeth Ddigidol Llywodraeth Cymru yw adroddiad y comisiwn a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ymweliad arfaethedig Pwyllgor Cyngori Cymru â BBC Cymru Wales yn y Sgwâr Canolog – rhywbryd yn yr hydref.</li> </ul>	
<p><b>Adroddiad y Cadeirydd – ar lafar</b></p> <p>4. Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad ar lafar o’i weithgareddau ers y cyfarfod diwethaf, gan gynnwys mynychu:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Hyb Defnyddwyr Cyfathrebiadau - roedd cyfarfod ar y cyd o hybiau'r gwledydd, a oedd yn canolbwyntio ar ddiffodd PSTN, yn fuddiol, ac roedd yn tynnu sylw sylw at bwysigrwydd parhau i gyfathrebu’r broses ddiffodd, yn enwedig o ran y sector teleofal a diogelu defnyddwyr agored i niwed.</li> <li>• Soniodd un aelod o dîm Ofcom Cymru am y rhaglen waith barhaus i godi ymwybyddiaeth o’r broses ddiffodd er nad oes gan Ofcom rôl ffurfiol yn y broses.</li> <li>• Dywedodd Aelod y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau dros Gymru fod y newid i brotocol llais dros y rhyngwyd (VOPI) ar flaen agenda’r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau ar edrych tua’r dyfodol.</li> <li>• Cyfarfod â BBC Cymru Wales – bydd hyn yn cael ei drafod yn fanylach o dan ddiweddariad Aelod ar ran Cymru y Bwrdd Cynnwys.</li> <li>• Cyflwyniad i Bartneriaeth Diogelwch y Rhyngwyd Cymru ar adroddiad Ofcom ar Ddefnydd Plant a Rhieni o Gyfryngau.</li> <li>• Cymryd rhan mewn fideo fel rhan o ymgyrch recriwtio Pwyllgor Cyngori Cymru.</li> </ul>	
<p><b>Y Diweddaraf: Aelod ar ran Cymru o Fwrdd Ofcom – ar lafar</b></p> <p>5. Rhoddodd yr Aelod o’r Bwrdd ar ran Cymru ddiweddariad llawn ar lafar, a chrynodeb o bynciau allweddol dros y misoedd diwethaf. Roedd y rhain yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae’r broses o recriwtio Cadeirydd Ofcom wedi dechrau eto. Mae hyn wedi cael ei adrodd yn eang yn y cyfryngau. Mae hyn yn golygu bod y sefyllfa bresennol gyda Maggie Carver fel Cadeirydd dros dro yn parhau am nifer o fisoedd.</li> <li>• Ychydig o newidiadau i’r Bwrdd Cynnwys ar ôl i Tim Suter roi’r gorau i’w ddyletswyddau fel Ofcom. Penodwyd Bob Downes yn Gadeirydd a phenodwyd David Jones i’r Bwrdd Cynnwys.</li> <li>• Cyflwyniad gan Ganolfan Newyddiaduraeth Gymunedol Prifysgol Caerdydd, a oedd yn canolbwyntio ar newyddiaduraeth leol iawn a’i heffaith.</li> <li>• Cyfarfod â swyddogion gweithredol allweddol Ogi (Spectrum Internet gynt)</li> <li>• Y Bil Niwed Ar-lein Drafft bellach yn cael ei gyhoeddi ac yn y cam craffu cyn y broses ddeddfu</li> <li>• Penodi Prif Swyddog Technoleg – yn ymuno o Amazon lle’r oedd yn ddylanwadol yn y gwaith o greu Alexa.</li> </ul>	
<p><b>Y Diweddaraf: Aelod Cymru o Fwrdd Cynnwys Ofcom</b></p> <p>6. Roedd Aelod Cymru o’r Bwrdd Cynnwys eisoes wedi dosbarthu papur diweddarau. Dyma rai o’r uchafbwyntiau:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Nodi bod Tim Suter wedi rhoi’r gorau i’w ddyletswyddau gydag Ofcom yng ngoleuni canfyddiadau Adroddiad Dyson. Nodwyd ei gyfraniad gwerthfawr.</li> <li>• Etholiadau’r Senedd – tawel o safbwynt rheoleiddio. Nodwyd bod cyfarfod o’r Pwyllgor Etholiadau wedi cael ei gynnwll i ystyried un gŵyn.</li> <li>• Ymchwil newyddion rhwydwaith – gwaith wedi’i gomisiynu</li> </ul>	

<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus – bydd Ofcom yn cyhoeddi ei ddatganiad (cyngor i Lywodraeth y DU) dros yr wythnosau nesaf. Rhoddwyd cryn sylw yn y wasg yn ddiweddar i bwysigrwydd amlygrwydd a’r ffaith y bydd gweinidogion yn clirio amser deddfwriaethol i ganolbwyntio ar amlygrwydd.</li> <li>• Niwed ar-lein – Cyhoeddodd Ofcom y bydd yn agor canolfan newydd ym Manceinion a fydd yn cynnwys nifer o swyddi allweddol ym maes diogelwch ar-lein. Tynnodd Aelod ar ran Cymru o’r Bwrdd Cynnwys sylw at ddiogelwch ar-lein fel cyfle i dîm Ofcom Cymru wneud cais am swyddi yng Nghaerdydd.</li> <li>• Adroddiad amrywiaeth ym maes darlledu – bydd y 5ed adroddiad yn cael ei gyhoeddi cyn bo hir.</li> </ul> <p>I ymateb i’r diweddariad, cyfeiriodd un aelod at bwysigrwydd amlygrwydd y sgrin gartref a lle mae cenedligrwydd a rhanbartholrwydd wedi’u lleoli yn y byd BVOD.</p>	
<p><b>Adroddiad – Polisi Cyhoeddus</b></p> <p>7. Roedd y Cadeirydd yn dymuno diolch i’r Cyfarwyddwr Polisi Cyhoeddus am ei chyfraniad i Bwyllgor Ymgynghorol Cymru wrth iddi symud i swydd newydd gyda’r Asiantaeth Safonau Bwyd. Roedd y Cyfarwyddwr eisoes wedi dosbarthu adroddiad diweddar yn amlinellu datblygiadau allweddol Llywodraeth y DU a’r Senedd ers y cyfarfod diwethaf. Yn ogystal â’r pynciau a grybwyllwyd eisoes, roedd yr uchafbwyntiau ychwanegol yn cynnwys y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Roedd y Bil Niwed Ar-lein wedi cael ei gyhoeddi ar ffurf drafft erbyn hyn, ac roedd yn garreg filltir sylweddol i Ofcom a Llywodraeth y DU. Bydd y bil nawr yn destun craffu manwl gan weinidogion a fyddai, heb os, yn cymryd llawer iawn o amser ac egni.</li> <li>• Penodwyd Prif Swyddog Technoleg.</li> <li>• Sgamiau – rhoddwyd cryn sylw i sgamiau’n ddiweddar, a galwwyd am roi sylw i’r maes pwnc o fewn niwed ar-lein. Mae gwaith Ofcom yn parhau i geisio mynd i’r afael â’r cymhlethdodau sy’n gysylltiedig â delio â sgamiau, ac i weithio gyda’r prif chwaraewyr er mwyn gweithio tuag at ddatrys y mater.</li> <li>• Cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus – Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn ceisio lansio Bil Cyfryngau y flwyddyn nesaf a byddai’n hoffi i Ofcom fod mor fanwl â phosibl yn ei gyngor i’r Llywodraeth, yn enwedig o ran amlygrwydd.</li> </ul>	
<p><b>Y Diweddaraf gan y Panel Defnyddwyr Gwasanaethau Cyfathrebu</b></p> <p>8. Roedd Aelod Cymru ar y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau eisoes wedi dosbarthu adroddiad diweddar ar weithgareddau’r Panel ers y cyfarfod diwethaf. Roedd y prif uchafbwyntiau a grybwyllwyd yn ystod y cyfarfod yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Pwysigrwydd cael ymgyrch gyfathrebu barhaus ynghylch y broses o ddiffodd PSTN fel sydd eisoes wedi cael ei drafod o dan eitemau eraill ar yr agenda yn ystod y cyfarfod.</li> <li>• Y Panel yn ystyried darn o waith ar reoleiddio darparwyr band eang llai.</li> <li>• Gwella manylder data cwynion, a’i fireinio i adlewyrchu’r sefyllfa yn well yn y gwledydd.</li> <li>• Mae’r Comisiynydd Pobl Hŷn wedi <a href="#">cyhoeddi adroddiad</a> ar bortreadu pobl hŷn mewn straeon newyddion. Mae’r Comisiynydd yn canfod bod dros ddwy ran o dair o straeon newyddion yn portreadu pobl hŷn mewn ffordd negyddol. Mae Aelod Cymru o’r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau yn gobeithio cwrdd â’r Comisiynydd cyn bo hir i drafod y canfyddiadau’n fanylach.</li> </ul>	

<ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd y Panel yn trafod meysydd ymchwil posibl yn ystod ei gyfarfod nesaf. Un awgrym yw newid – faint ohono sy'n digwydd ac a yw'r drefn yn llwyddo i ysgogi gwell gwasanaethau?</li> <li>• Trafodwyd Mynediad Di-wifr Sefydlog fel technoleg amgen a allai gael effaith sylweddol o ran sicrhau bod y defnyddwyr hynny sy'n byw mewn ardaloedd anodd iawn eu cyrraedd yn cael eu cysylltu. Pwysleisiodd un aelod ei bod yn bwysig i hyn gael ei ystyried yn strategaeth Ofcom ar gyfer rheoli sbectrwm.</li> </ul>	
<p><b>Adroddiad – Datblygiadau Diweddar yng Nghymru</b></p> <p>9. Nododd yr aelodau gynnwys papur diweddarau a rannwyd yn flaenorol ac a oedd yn ymdrin â phynciau'n cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Y cyfleoedd sydd ar gael drwy'r pwerau ychwanegol a roddwyd i Ofcom mewn perthynas â diogelwch ar-lein, i dîm Ofcom Cymru i sicrhau mwy o swyddi i'w lleoli yng Nghaerdydd.</li> <li>• Rhwydwaith Gwledig a Rennir – gofynnodd un aelod am eglurder ynghylch y cyhoeddiad cyhoeddus ynghylch y ddarpariaeth a ddisgwylir cyn bo hir. Cytunwyd y byddai'r cyhoeddiad yn cael ei rannu gyda'r aelodau yn unol â hynny.</li> <li>• Y Ganolfan Ragoriaeth Fyd-Eang ar gyfer Rheilffyrdd – rhoddodd aelod o dîm Cymru drosolwg o'r drafodaeth yn y cyfarfod a gafodd ei hwyluso i drafod y Ganolfan Fyd-eang ar gyfer Rhagoriaeth Rheilffyrdd gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a chydweithwyr o dîm sbectrwm Ofcom. Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i sicrhau bod Ofcom yn ymwybodol o'r prosiect a'i ofynion o ran sbectrwm er mwyn sicrhau bod y math iawn o sbectrwm yn cael ei ddefnyddio a'i ddyrannu, yn ogystal â chydymffurfiaid rheoleiddiol.</li> <li>• Cafodd yr aelodau y wybodaeth ddiweddaraf am y broses o drosglwyddo'r drwydded ar gyfer Calon FM – yr orsaf radio gymunedol yn Wrecsam. Bydd diweddariad pellach yn cael ei roi yn y cyfarfod nesaf.</li> <li>• Awgrymwyd y dylid trafod Teledu Lleol mewn cyfarfod yn y dyfodol.</li> </ul>	<p><b>EW</b></p> <p><b>EW</b></p>
<p><b>Ymatebion i'r ymgynghoriad - adborth gan aelodau</b></p> <p>10. Cafodd y cyhoeddiadau canlynol eu nodi gan y pwyllgor: -</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Adolygiad Ofcom o sianel deledu arfaethedig BBC Three (C)</li> <li>• Cais am newid amodau'r drwydded sy'n ymwneud â darparu allbwn newyddion ar Channel 5 (C)</li> <li>• Adroddiad ar fforddiadwyedd gwasanaethau cyfathrebu</li> <li>• Datganiad Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr: Argymhelliad i'r Llywodraeth ar ddyfodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus</li> </ul>	
<p><b>Diweddariad PACT – John McVay, Prif Swyddog Gweithredol</b></p> <p>11. Rhoddodd John McVay wybodaeth ar lafar i'r Pwyllgor, yn amlinellu'r materion allweddol sy'n wynebu aelodau PACT:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ar ein Hadolygiad o Gyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus, cwestiynodd yr angen i adolygu cwotâu a thelerau masnach ar gyfer comisiynu tra oedd y sector annibynnol yn dal i fod yn y cyfnod adfer ar ôl Covid</li> </ul>	

<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mynegodd bryderon fod Llywodraeth y DU yn bwriadu preifateiddio Channel 4 a'r effaith y byddai hynny'n ei chael ar ddyfodol y sector annibynnol</li> <li>• Pwysleisiodd bwysigrwydd y sector annibynnol i ragwerthu hawliau sy'n seiliedig ar werthiant, yn enwedig o ystyried y buddsoddiad mewn cynnwys gan ffrydwr fel Netflix a Disney+</li> <li>• I ymateb i gwestiwn gan y Pwyllgor ynghylch faint o aelodau oedd gan PACT yng Nghymru, dywedodd fod ganddo 27, gan ychwanegu bod mwy yn ymuno wrth iddynt sicrhau mwy o gomisiynau</li> <li>• Pan ofynnwyd am bwysigrwydd amlygrwydd i gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus a mynediad at gynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ar lwyfannau newydd, dywedodd McVay y dylai Llywodraeth y DU ddeddfu i sicrhau amlygrwydd, gan ychwanegu y byddai o fudd i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, yn enwedig S4C.</li> </ul>	
<p><b>Cyfryngau'r Genedl 2021</b></p> <p>12. Ymunodd cydweithwyr Ofcom â'r cyfarfod a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ei adroddiad Cyfryngau'r Genedl a fydd yn cael ei gyhoeddi ym mis Awst.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cadarnhaodd cydweithwyr y bydd yr adroddiad eleni yn cynnwys naratif traddodiadol am sefyllfa'r farchnad a thueddiadau sydd wedi dod i'r amlwg yn 2020/21, gyda llai o ffocws ar Covid. Roedd y Pwyllgor yn croesawu'r ffocws ar wneud yr adroddiad mor amserol a pherthnasol, gyda chymaint o wybodaeth benodol â phosibl am Gymru</li> <li>• Dywedodd cydweithwyr fod prinder data gan Rajar oherwydd ei fod wedi gohirio ei ymchwil yn ystod Covid, ond byddai data ar gael o'r traciwr technoleg ac ymchwil arall</li> <li>• Un thema sy'n dod i'r amlwg yw bod y defnydd o gyfryngau'n tyfu ar draws llwyfannau, ar ôl dirywiad cyffredinol yn y blynyddoedd diwethaf</li> <li>• Nododd y Pwyllgor bwysigrwydd adroddiad Cyfryngau'r Genedl i randdeiliaid yng Nghymru.</li> </ul>	
<p><b>Channel 4</b></p> <p>13. Ymunodd cydweithwyr o Channel 4 â'r cyfarfod ar gyfer ei sesiwn flynyddol gyda Phwyllgor Cynghori Cymru. Roedd pecyn sleidiau wedi cael ei ddsbarthu cyn y cyfarfod.</p> <p>Ymunodd cydweithwyr o Channel 4 â'r cyfarfod ar gyfer ei sesiwn flynyddol gyda Phwyllgor Cynghori Cymru. Roedd pecyn sleidiau wedi cael ei ddsbarthu cyn y cyfarfod.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• O ran comisiynu gan gwmnïau annibynnol yng Nghymru, dywedodd Channel 4 ei fod wedi ailgomisiynu cyfresi 2 a 3 o Great House Giveaway gan Chwarel, sef 60 awr i gyd, sy'n cynnwys 10 awr yn ystod oriau brig. Nododd Channel 4 fod y gyfres wedi ennill gwobr Bafta i Chwarel yn ddiweddar, a bod y rhaglen yn gyd-gomisiyniad gydag S4C. Mae Avanti hefyd wedi cael ei gomisiynu i ddarparu 20 pennod o Perfect Pitch, y maent yn ei ffilmio yn Sir Benfro ar hyn o bryd. Mae Outline Wales wedi cael ei gomisiynu i wneud cyfres arall o Life in the Country gyda Sarah Beeny. Nododd Channel 4 mai dyma'r sioe a gafodd y nifer uchaf o wylwyr am 8.00pm yn 2020. Mae'r rhaglen yn cael ei golygu yng Nghymru gan Gorilla. A bydd Cardiff Productions yn cynhyrchu Britain's Remarkable Rivers.</li> </ul>	

<ul style="list-style-type: none"> <li>• Pan ofynnwyd i Channel 4 ynghylch comisiynu drama yng Nghymru, dywedwyd mai Gwawr Martha Lloyd oedd y Comisiynydd Drama ym Mryste a chyfeiriodd at lwyddiant It's a Sin gan yr awdur o Abertawe, Russell T Davies.</li> <li>• Amlinellodd Channel 4 ei thair blaenoriaeth strategol, a oedd yn cynnwys datblygu sgiliau yn y sector drwy 4Skills yn y gwledydd; cefnogi cwmnïau annibynnol drwy ei gronfa cwmnïau annibynnol newydd; a hyrwyddo 4Studio, sef cynnwys ffurf-fer ar lwyfannau cymdeithasol a digidol ar gyfer cynulleidfaoedd ifanc.</li> <li>• Nododd y Pwyllgor y sylw a roddwyd i'r Senedd a'i Etholiadau diweddar, yn ogystal â straeon diweddar am Covid yng Nghymru ar Channel 4 News</li> </ul>	
<p><b>Strategaeth Symudol</b></p> <p><b>14.</b> Ymunodd cydweithwyr o Ofcom â'r cyfarfod i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ein Strategaeth Symudol</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Nododd cydweithwyr fod defnyddwyr yn newid y ffordd y maent yn prynu ffonau symudol felly roedd yn bwysig pwysu a mesur y farchnad, datblygiadau technolegol a'r fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau rheoleiddio. Byddai darpariaeth a mynediad at wasanaethau hefyd yn rhan o'r gwaith. Cyhoeddir papur trafod yn nes ymlaen yn y flwyddyn.</li> <li>• Nododd y Pwyllgor y gallai dyfodiad e-sims newydd gynnig opsiynau i ddefnyddwyr newid darparwyr ac y gallai fod yn ateb i ddarpariaeth wael mewn rhai ardaloedd yng Nghymru. Nododd y byddai rhai sectorau, fel amaethyddiaeth, trafniadaeth a'r byd academiaidd, yn rhanddeiliaid â diddordeb yn y maes polisi hwn. Nododd fod yr agweddau amgylcheddol a chynllunio hefyd yn feysydd pwysig i'w hystyried, a thynnodd y Pwyllgor sylw at waith Pwyllgor Seilwaith Cenedlaethol Cymru yn y maes hwn.</li> </ul>	
<p><b>Galwad yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon am Dystiolaeth ar Ardaloedd Anodd lawn eu Cyrraedd</b></p> <p>15. Cytunwyd y byddai'r Pwyllgor Cyngori yn ymateb i Gais yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon am Dystiolaeth ar Ardaloedd Anodd lawn eu Cyrraedd. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau yw 25<sup>ain</sup> Awst. Bydd drafft yn cael ei ddisbarthu ar sail materion allweddol sydd wedi cael eu nodi gan y pwyllgor yn y gorffennol, sef rhwystrau i gyflwyno a defnyddio'r gwasanaethau sydd ar gael, cyfathrebu gwasanaethau sydd ar gael i ddefnyddwyr, effaith a hyfywedd technolegau amgen, a chyfathrebu'r rhain yn effeithiol i ddefnyddwyr.</p> <p>Awgrymwyd a chytunwyd y byddai ymateb Pwyllgor Cyngori Cymru yn cael ei rannu â'r pwyllgorau cyngori eraill.</p>	
<p><b>Yr wybodaeth ddiweddaraf am gwynion defnyddwyr</b></p> <p>16. <b>NODWYD</b> y cynnwys.</p>	
<p><b>Ymgynghoriadau a Chyhoeddiadau i ddod</b></p> <p>17. Nodwyd</p>	

**Unrhyw faterion eraill ac eitemau ar gyfer agendâu'r dyfodol**

**Unrhyw fater arall – Dim**

Daeth y cyfarfod i ben am 3.20, gyda'r Cadeirydd yn diolch i'r aelodau am eu cyfraniad ac yn dymuno haf braf iddynt.

**Cadarnhawyd dyddiadau cyfarfodydd yn y dyfodol fel a ganlyn:**

Dydd Mercher 22<sup>ain</sup> Medi

Dydd Mawrth 24<sup>ain</sup> Tachwedd